


Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd Bwrdeistref Sirol Caerffili 2020-2035

EB35: Asesiad Seilwaith Gwyrdd

Diweddarwyd Hydref 2026

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI
(CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD)
ASESIAD SEILWAITH GWYRDD A GLAS
CRYNODEB ANNHECHNEGOL

Mae'r Crynodeb Annhechnegol hwn yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r Asesiad Seilwaith Gwyrdd a Glas, sy'n rhan o'r sylfaen dystiolaeth sy'n cefnogi Cynllun Adnau'r. Mae'r asesiad yn archwilio maint, cyflwr a phwysigrwydd Seilwaith Gwyrdd a Glas ledled y Fwrdeistref Sirol ac yn nodi'r heriau, y cyfleoedd a'r ymatebion cynllunio sydd eu hangen i ddiogelu a gwella'r asedau hyn.

Beth yw Seilwaith Gwyrdd a Glas?

Mae SGG yn cyfeirio at y rhwydwaith o nodweddion naturiol a lled-naturiol sy'n cysylltu lleoedd ac yn cefnogi pobl, natur a'r economi. Mae hyn yn cynnwys parciau, coetiroedd, afonydd, gwlyptiroedd, cefn gwlad agored, mannau agored cyhoeddus, llwybrau teithio llesol, coed ac asedau naturiol eraill. Mae'r nodweddion hyn yn gweithredu ar raddfeydd strategol, lleol a safle-benodol ac yn darparu nifer o fuddion gan gynnwys gwarchod bioamrywiaeth, rheoli llifogydd, gwydnwch hinsawdd, hamdden a gwelliannau i iechyd a lles.

Pam mae SGG yn Bwysig?

Mae'r asesiad yn amlygu bod SGG yn hanfodol ar gyfer creu cymunedau iach, gwydn a chynaliadwy. Mae'n cefnogi bywyd gwyllt, yn gwella ansawdd y dirwedd, yn helpu i reoli perygl llifogydd, yn storio carbon, yn oeri ardaloedd trefol ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer hamdden a theithio llesol. Mae hefyd yn cyfrannu at les corfforol a meddyliol pobl ac yn cryfhau hunaniaeth leol ac ymdeimlad o le.

Cyd-destun Strategol

Mae Bwrdeistref Sirol Caerffili mewn safle pwysig o fewn rhanbarth ehangach De-ddwyrain Cymru, gan gysylltu rhwydweithiau ecolegol, tirwedd a dŵr sy'n ymestyn ar draws ffiniau awdurdodau lleol. Nododd yr asesiad strategol gynefinoedd helaeth, safleoedd dynodedig, coridorau afonydd, rhwydweithiau coetir ac ardaloedd o werth tirwedd uchel sy'n cyfrannu at rwydwaith SGG o bwysigrwydd rhanbarthol. Canfu'r asesiad gysylltiadau cryf rhwng ardaloedd â bioamrywiaeth uchel, tirweddau deniadol, llonyddwch, awyr dywyll a chyfleoedd ar gyfer mynediad cyhoeddus a hamdden.

Prif Ganfyddiadau ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili

Mae'r Fwrdeistref Sirol yn cynnwys amrywiaeth eang o asedau amgylcheddol a chymunedol, gan gynnwys:

- Safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd rhyngwladol a chenedlaethol megis Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNC) a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA).
- 190 o Safleoedd Pwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SINCau) presennol a 51 o safleoedd ychwanegol a gynigir ar gyfer dynodiad.
- Rhwydweithiau ecolegol helaeth gan gynnwys mawndiroedd, coetiroedd, glaswelltiroedd a chynefinoedd dŵr croyw.
- Adnoddau coetir sylweddol, gyda thua 8,500 hectar o goed a choetiroedd, gan gynnwys ardaloedd helaeth o goetir hynafol lled-naturiol.
- Chwe Ardal Tirwedd Arbennig sy'n cwmpasu bron i hanner y Fwrdeistref Sirol a phedair Tirwedd Leol Weledol Bwysig.
- Rhwydwaith helaeth o barciau, parciau gwledig, cyfleusterau chwaraeon, llwybrau beicio, hawliau tramwy cyhoeddus a thir mynediad agored.
- Tair prif system afonydd, sef afonydd Rhymni, Ebwy a Sirhywi, sy'n darparu swyddogaethau ecolegol, hamdden a rheoli llifogydd pwysig.
- Amgylchedd hanesyddol cyfoethog sy'n cynnwys tirweddau hanesyddol, adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig, ardaloedd cadwraeth a pharciau a gerddi hanesyddol.

Heriau a Phwysau

Er gwaethaf y cryfderau hyn, mae'r asesiad yn nodi nifer o heriau sylweddol sy'n effeithio ar SGG:

- Newid yn yr hinsawdd a chynnydd mewn digwyddiadau tywydd eithafol.
- Dirywiad mewn bioamrywiaeth a darnio cynefinoedd.
- Perygl llifogydd a phwysau ar systemau rheoli dŵr.
- Pwysau datblygu a newidiadau defnydd tir.
- Mynediad anghyfartal at natur a mannau gwyrdd mewn rhai cymunedau.
- Llygredd amgylcheddol, gan gynnwys llygredd sŵn a goleuni.
- Dirywiad parhaus yng nghyflwr rhai safleoedd a chynefinoedd gwarchodedig.
- Pwysau cynyddol ar awdurdodau lleol i gynnal parciau, mannau agored ac asedau amgylcheddol oherwydd cyfyngiadau ariannol.

Cyfleoedd ar gyfer Gwella

Mae'r asesiad yn nodi cyfleoedd sylweddol i wella rhwydwaith SGG y Fwrdeistref Sirol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ehangu a chryfhau rhwydweithiau ecolegol.

- Dynodi 51 o Safleoedd Pwysigrwydd er Cadwraeth Natur ychwanegol.
- Creu a gwella coetiroedd ar draws miloedd o hectarau.
- Adfer a chreu gwrychoedd a chynefinoedd o fewn tir amaethyddol.
- Adfer afonydd, plannu glannau afonydd a mesurau rheoli llifogydd naturiol.
- Gwyrddu trefol, draenio cynaliadwy a gwella mynediad at natur.

Mae'r asesiad yn mapio cyfleoedd i wella cynefinoedd ledled y Fwrdeistref Sirol.

Casgliadau

Mae'r asesiad yn dod i'r casgliad bod gan Fwrdeistref Sirol Caerffili rwydwaith cryf a chysylltiedig o asedau gwyrdd a glas sy'n gwneud cyfraniad pwysig at fioamrywiaeth, gwydnwch hinsawdd, rheoli llifogydd, hamdden, iechyd a lles, ansawdd tirwedd a threftadaeth ddiwylliannol. Fodd bynnag, mae'r asedau hyn yn wynebu pwysau cynyddol o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, colli bioamrywiaeth, llygredd, datblygu a chyfyngiadau adnoddau. Bydd parhau i'w diogelu, eu gwella a buddsoddi ynddynt felly yn hanfodol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i ddarparu buddion i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Ymateb Cynllunio a Argymhellir

Mae'r asesiad yn argymell ystod o bolisïau cynllunio o fewn y 2ILLC i helpu i ddiogelu a gwella Seilwaith Gwyrdd a Glas. Mae'r rhain yn cynnwys polisïau sy'n ymwneud â:

- Newid yn yr hinsawdd a gwydnwch.
- Bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau.
- Creu lleoedd cynaliadwy.
- Diogelu safleoedd cadwraeth natur lleol.
- Seilwaith Gwyrdd a Glas.
- Coed, coetiroedd a gwrychoedd.
- Mannau agored, hamdden a chyfleusterau adloniant.
- Gwarchod tirweddau.
- Gwarchod yr amgylchedd.
- Ardaloedd Draenio Critigol.
- Awyr dywyll a goleuo sensitif.

Yn gyffredinol, mae'r adroddiad yn casglu y dylai SGG barhau i fod yn elfen ganolog o strategaeth gynllunio'r Fwrdeistref Sirol, gan helpu i gefnogi datblygu cynaliadwy, adfer natur, gwydnwch hinsawdd a lles cymunedol drwy gydol cyfnod y cynllun.